Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd

Adroddiad Blynyddol (Hydref 2021 – Hydref 2022)

Rhif Elusen Gofrestredig: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Strwythur, Trefn Lywodraethol a Rheolaeth:

Yr Ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r Gymdeithas:

(penodwyd ac ailbenodwyd mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref 2021)

Gerallt W. Hughes – Cadeirydd; Beryl H. Griffiths – Ysgrifennydd Cyffredinol; Gwerfyl Price – Trefnydd Cyfarfodydd; Rheinallt G. Llwyd – Trysorydd; Ffion M. Jones – Golygydd; Megan Huggins – Ysgrifennydd Aelodaeth.

Cyllid: [Rheinallt G Llwyd]

Ceir manylion llawn ein sefyllfa ariannol yn y Fantolen am 2021-22. Er fod gennym frwydr barhaus yn erbyn cynnydd mewn costau mae sefyllfa ariannol y Gymdeithas yn weddol foddhaol.

Aelodaeth: Mawrth 2021 – Mawrth 2022: [Megan Huggins]

CRYNODEB O NIFEROEDD AELODAU						
Diwedd Blwyddyn	Cyfanswm	Oes	Unigol	Teulu	Cymdeithasau Hanes Lleol	Sefydliadau
Maw '21	**222**	4	142	48	4	24
Maw '22	**230**	4	150	48	4	24

Cyfarfodydd: [Gwerfyl Price]

Ar ôl pendroni tipyn, penderfynwyd mai cyfarfod ar y we drwy Zoom a fyddai ein sgwrs gyntaf gan Gwenan Gibbard ym mis Ebrill. Roedd yr aros am y sgwrs ar y testun *Golwg ar rai o'r casgliadau a'r caneuon yn archif Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney* yn hollol werth chweil a chafwyd gwledd o hanes a chanu am yn ail. Er bod gwreiddiau Meredydd, neu Merêd fel y'i gelwid, yn hanu o Ddyffryn Dysynni, ychydig iawn o ganeuon a gasglwyd o'r ardal hon – daw'r rhan fwyaf o ardal Ffestiniog ac yn enwedig o Danygrisiau. Ymhlith llawer, siaradodd Gwenan am William Jones Manod a'i Lyfr Caneuon – wedi'i sgwennu mewn llawysgrifen fel cymaint ohonynt. Un arall gyda chysylltiad ag ardal Ffestiniog oedd Buddug Lloyd Roberts a fu farw yn ystod Covid ac a fu'n dethol llawer o alawon, caneuon gwerin a hen benillion, er enghraifft ei *Detholiad o Ganeuon Gwerin*, ac roedd gan Merêd a Phyllis barch mawr tuag at Buddug. Mae popeth yn yr archif yn nodi gan bwy y cafwyd y caneuon, a llawer o sôn am rai a ddysgodd Merêd gan ei fam.

Yn arbennig o ddiddorol o safbwynt Meirionnydd oedd clywed Gwenan yn sôn am lyfryn o farddoniaeth ac alawon (cyh. 1880) gan deulu o'r Brithdir ger Dolgellau – Llyfr Canu'r Teulu – yn llawn o ganeuon gwerin a cherdd dant y byddai'r teulu hynod hwn yn eu canu, er na wyddom pwy yn union oedden nhw'n anffodus – rhaid ymchwilio efallai i hyn. Roedd Merêd hefyd wrth gwrs yn casglu carolau Plygain a siaradodd Gwenan am Garadog Puw, Mallwyd a Sir Drefaldwyn, a fu'n casglu carolau Plygain wrth fynd o gwmpas nosweithiau llawen. Mae Gwenan yn bwriadu rhannu'r ymchwil ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol, a chyhoeddi llawer o'r caneuon sydd heb eu cyhoeddi hyd yma, a'u recordio, er mwyn cadw'r caneuon yn fyw. Da clywed hynny.

Yna ddiwedd mis Mehefin ac eto ar ôl pendroni sut i gynnal taith flynyddol gan gadw'r tywydd a chyfyngiadau Covid mewn cof, daeth nifer dda o aelodau ynghyd yn Llanuwchllyn i gyfarfod yn y Fynwent Newydd. A hithau'n chwythu'n ddigon oer a bygwth glaw ar y diwrnod, cerddodd y cwmni i fyny drwy ganol Llanuwchllyn gan wrando ar Beryl, ein tywysydd, yn adrodd ei gwybodaeth helaeth am y lle. Aethom heibio i'r Gilfach Goffa a chofgolofnau OM a Syr Ifan ac ymlaen wedyn at Hen Dŷ'r Ysgol lle y cychwynnodd OM ei addysg ffurfiol a dioddef y *Welsh Not* a fu'n gymaint o ddylanwad arno; gweld yr ysgol yr aeth iddi wedyn dros y ffordd, Arddol heddiw, a lle y bu'n ddisgybl athro; yna ymlaen heibio'r Llyfrgell a sefydlwyd pan oedd o'n Gadeirydd ar y Cyngor Plwyf; at y safle lle y safai Glanaber a lle y rhoddodd ei bregeth gyntaf a phriodi; wedyn i fyny drwy'r pentref at dŷ Tremaran lle y bu'n byw ar ôl priodi, a heibio i dai Bryn'raber a'r Neuadd Wen cyn gorffen y daith dywys ym Mynwent y Pandy wrth fedd OM, Elin, Ab Owen a rhieni OM. Daeth y cerdded i ben yn nhafarn yr Eryrod lle y cawsom wledd arall – o fwyd y tro hwn – a mwynhau te, sgons a chacennau hufen a jam.

***Y Cylchgrawn*:** [Ffion M. Jones]

Mae cyfrol XIX, rhan I, yn barod i'w hanfon i'r wasg a disgwylir y bydd yn cael ei phostio i'r aelodau yn wythnos gyntaf mis Hydref.

Mae'n cynnwys 104 tudalen a cheir ynddi chwe ysgrif (tair yn Gymraeg a thair yn Saesneg), dau gyfraniad byr (un Cymraeg, un Saesneg), chwe adolygiad (tri yr un yn y ddwy iaith), a Gweithrediadau'r Gymdeithas (a gyfrannwyd yn ddwyieithog gan Arwyn Lloyd Hughes, y Cyn-Olygydd). Trafodir yn yr erthyglau a'r cyfraniadau byr seneddau Owain Glyndŵr; arolygon hanesyddol cynnar o Sir Feirionnydd; hanes dwy ddeoniaeth yn Sir Feirionnydd yn y ddeunawfed ganrif; Thomas Pennant a Dinas Mawddwy; cyflenwad dŵr a charthffosiaeth yn Ffestiniog yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; tai unnos y Garneddwen; y cerddor John Williams (1740–1821), Dolgellau; a Richard Meredyth Richards a'i daith i Sbaen yn 1857. Ceir adolygiadau ar gyfrolau ar gestyll Gwynedd yn yr Oesoedd Canol (Craig Owen Jones); Ceredigion yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (Gwyn Jenkins); ardal Ffestiniog (gan y diweddar Les Darbyshire); gwersyll tanio Trawsfynydd (Keith O;Brien); casgliad o ysgrifau ar enwau lleoedd i anrhydeddu Gwynedd O. Pierce; a hunangofiant Elfyn Llwyd (gan Elfyn Llwyd, wrth gwrs!).

Diolch yn fawr iawn i'r holl gyfranwyr am gydweithio â mi wrth baratoi'r deunydd i'w gyhoeddi. Diolch hefyd i aelodau'r Pwyllgor, y Cyn-Olygydd, y cysodwr, Aeron Jones, a'r argraffwyr – WPG, Y Trallwng – am eu cefnogaeth barod.

Y Wefan:

Mae'r wefan yn dal yn weithredol gan greu diddordeb yng ngweithgareddau'r Gymdeithas ac yn fodd i werthu'r *Cylchgrawn* a'r mynegai iddo. Mae'r wefan i'w gweld yn: www.hanes-meirionnydd.cymru

Datganiad:

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol uchod.

Llofnodwyd ar eu rhan gan Gadeirydd y Gymdeithas,

_____

Gerallt W. Hughes

Dyddiad: _____

Merioneth Historical and Record Society

Annual Report (October 2021 – October 2022)

Registered Charity No: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Structure, Governance and Management:

The Trustees who manage the Society:

(appointed and re-appointed at an AGM in October 2019)

Gerallt W. Hughes – Chair; Beryl H Griffiths – General Secretary; Gwerfyl Price – Meetings Organiser; Rheinallt G. Llwyd – Treasurer: Ffion M. Jones – Editor; Megan Huggins – Membership Secretary.

Finance: [Rheinallt Llwyd]

Full details of our financial position is provided in the 2021-22 balance sheet. Despite a constant battle against rising costs the Society's financial position is relatively satisfactory.

Membership: March 2021 – March 2022: [Megan Huggins]

SUMMARY OF MEMBERSHIP NUMBERS						
Year End	Overall	Life	Individual	Family	Local History Societies	Institutions
Mar '21	**222**	4	142	48	4	24
Mar '22	**230**	4	150	48	4	24

Meetings: [Gwerfyl Price]

After some consideration we decided that a Zoom meeting would be preferable for our first talk by Gwenan Gibbard in April. The wait for this talk on the papers in the Dr Meredydd Evans and Phyllis Kinney archive was very worthwhile and we were given a feast of history and song. Although Meredydd Evans's roots were in the Dysynni Valley, very few songs were collected in that area – most come from the Ffestiniog area and especially Tanygrisiau. Amongst many others, Gwenan discussed William Jones, Manod and his handwritten song book. Another with connections to the Ffestiniog area was Buddug Lloyd Roberts who died during the pandemic who had published a number of tunes, folk songs and rhymes, for example her 'Detholiad o Ganeuon Gwerin', and Merêd and Phyllis held Buddug in high regard. Every item in the archive notes the source, and many of the songs were taught to Merêd by his mother.

Of special interest to Merioneth was Gwenan's mention of a book of poetry and tunes (around 1880) by a family from Brithdir, Dolgellau – Llyfr Canu'r Teulu – full of folk songs and cerdd dant, although we do not know who exactly they were, unfortunately – this should be researched futher. Merêd also collected Plygain carols and Gwenan mentioned Caradog Puw, Mallwyd who collected Plygain carols as he toured around informal concerts. Gwenan intends to share the research with Bangor University, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol and the National Library, and to publish many of the songs that have not yet been published, and to record them, to ensure they survive.

Then at the end of June, and again after some consideration of how to arrange an annual trip keeping the Covid restrictions and the weather in mind, a good number of members came to Llanuwchllyn to meet near the Cemetery. With the wind blowing and rain in the forecast, the group walked through Llanuwchllyn listening to Beryl, our guide, sharing her information regarding the area. We saw the statues of OM Edwards and Sir Ifan and then went on to see the Old School House where OM's formal education began and he suffered the Welsh Not that became such a driving force in his life; we then saw the school he attended across the road, Arddol today, where he became a pupil teacher; then on past the Library established when OM was chair of the Parish Council; to the site where Glanaber used to stand, where he gave his first sermon and was married; then on through the village to Tremaran where he lived for a while after his marriage, and then to see Bryn'raber and Neuadd Wen before finishing our tour at Mynwent y Pandy by the grave of OM, Elin his wife, Ab Owen his son and OM's parents. Then we enjoyed another feast at the Eagles – a feast of food this time – of tea, scones and cream cakes.

The *Journal*: [Ffion M. Jones]

Volume XIX, part I, is ready to go to press and is expected to be posted to members in the first week of October.

It contains 104 pages and includes six articles (three in Welsh and three in English), two short contributions (one in Welsh, one in English), six reviews (three each in both languages), and the Proceedings of the Society (contributed bilingually by Arwyn Lloyd Hughes, the Former Editor). The articles and short contributions discuss Owain Glyndŵr's parliaments; early historical surveys of; the history of two Merioneth deaneries in the eighteenth century; Thomas Pennant and Dinas Mawddwy; water supply and sewerage in Ffestiniog in the nineteenth century; the Garneddwen one-night houses; the musician John Williams (1740–1821), Dolgellau; and Richard Meredyth Richards and his trip to Spain in 1857. There are reviews on volumes on Gwynedd castles in the Middle Ages (Craig Owen Jones); Ceredigion during the First World War (Gwyn Jenkins); the Ffestiniog area (by the late Les Darbyshire); Trawsfynydd artillery camp (Keith O;Brien); a collection of essays on place names to honour Gwynedd O. Pierce; and Elfyn Llwyd's autobiography (by Elfyn Llwyd, of course!).

Many thanks to all the contributors for working with me in preparing the material for publication. Thanks also to the members of the Committee, the Former Editor, the typesetter, Aeron Jones, and the printers – WPG, Welshpool – for their ready support.

The Website:

The website is still active creating an interest in the Society's activities and has been valuable in promoting sales of the *Journal* and the index to it. The website can be seen at

www.merioneth-history.wales

Declaration:

The Trustees approve the above Annual Report.

Signed on their behalf by the Chairman of the Society,

_____

Gerallt W. Hughes

Date: _____